CPS GWENT A CHI

Ein hymrwymiad i chi

Pleser mawr yw cyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2005 – 2006. Roedd y llynedd yn flwyddyn arbennig o heriol i CPS Gwent. Erbyn hyn fe fyddwn yn cynghori'r heddlu cyn cyhuddo heblaw yn yr achosion lleiaf un, ac rydym wedi parhau i ofalu am dystion a dioddefwyr drwy gydol proses y llys ar ôl cyhuddo.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau staff CPS Gwent am eu dyfalbarhad dros y 12 mis diwethaf. Maen nhw wedi parhau i wella lefel y gwasanaeth i'r cyhoedd. Mae'r adroddiad hwn yn egluro hyd a lled y gwaith o fewn CPS Gwent. Rydym yn edrych ymlaen at egluro ein gwaith yn llawnach i'r cyhoedd yn y llu o ddigwyddiadau cymunedol y byddwn yn eu mynychu yn ystod 2006 – 2007.

Chris Woolley,
Prif Erlynydd y Goron Dros Dro
CPS Gwent
6ed Llawr, Tŵr-y-Siartydd
Heol Uchaf y Porthladd
Casnewydd
Gwent NP20 1DW

TRAIS YN Y CARTREF

Diogelwch yn y cartref i chi

Bydd **1** menyw mewn **4** yn wynebu trais yn y cartref rywbryd yn ystod ei hoes.

Bydd **2** fenyw yn cael eu lladd bob wythnos gan bartner presennol neu flaenorol.

Mae trais yn erbyn menywod a phlant yn drosedd —

Trais yn y cartref
Treisio ac ymosod rhywiol
Priodas orfod
Trais ar sail 'anrhydedd'
Cam-drin plant
Cam-drin yr henoed
Y fasnach bobl
Puteindra
Llurgunio organau
rhywiol merched

Llinell Gymorth Radffon 24 awr National Domestic Violence: 0808 2000 247
Llinell ffôn RESPECT i gyflawnwyr trais: 0845 122 8609

TROSEDDAU HILIOL A CHREFYDDOL

Erlyn troseddau casineb ar eich rhan

I ni, digwyddiad wedi'i ysgogi gan hil neu grefydd yw:

Unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefwr neu unrhyw un arall yn ei ystyried yn ddigwyddiad wedi'i ysgogi gan hil neu grefydd.

Mae trosedd yn un dwysach hiliol neu grefyddol:

- os yw'r troseddwr, adeg cyflawni'r trosedd, neu'n union cyn neu ar ôl gwneud hynny, yn arddangos gelyniaeth tuag at ddioddefwr y trosedd ar sail aelodaeth y dioddefwr (neu dybiaeth ei fod ef neu hi'n aelod) o grŵp hiliol neu grefyddol; neu

- os yw'r trosedd wedi'i ysgogi (yn llwyr neu'n rhannol) gan elyniaeth tuag at aelodau o grŵp hiliol neu grefyddol ar sail eu haelodaeth o'r grŵp hwnnw.

Gyda rhai troseddau, gan gynnwys ymosod, aflonyddu, difrod troseddol a throseddau trefn gyhoeddus, gellir eu herlyn yn benodol fel troseddau dwysach hiliol neu grefyddol.

Gydag unrhyw drosedd arall ble ceir tystiolaeth o weithgarwch dwysach hiliol neu grefyddol, mae'r diffynnydd yn wynebu dedfryd lymach na phetai ef neu hi wedi'i gael yn euog o drosedd nad yw'n hiliol neu'n grefyddol.

TROSEDDAU HOMOFFOBIG

Eich helpu **chi** deimlo'n ddiogel

I ni, digwyddiad homoffobig yw:

Unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefwr neu unrhyw un arall (gan gynnwys y troseddwr) yn ei ystyried yn ddigwyddiad homoffobig neu drawsffobig.

Rydym yn ystyried troseddau homoffobig yn arbennig o ddifrifol oherwydd eu bod yn tanseilio hawl pobl i deimlo'n ddiogel ynghylch eu tueddfryd rhywiol a bod yn ddiogel beth bynnag fo'r tueddfryd hwnnw.

Mae troseddau o'r fath wedi'u seilio ar ragfarn, gwahaniaethu a chasineb, ac nid oes lle iddynt mewn cymdeithas agored a democrataidd.

Rydym yn ystyried yr elfen homoffobig mewn unrhyw drosedd yn nodwedd waethygol ddifrifol. Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan i ostwng troseddu a dod â throseddwyr gerbron llys.

Cafodd polisi troseddau homoffobig y CPS ei gyflwyno yn 2004. Ers hynny, fe gafodd cyfreithyddion yn CPS Gwent eu hyfforddi i wneud i bobl ddeall mwy am faterion perthnasol a bod yn fwy ymwybodol ohonynt. Fe gafodd cyfreithyddion arbenigol eu penodi hefyd er mwyn sicrhau bod troseddau ag elfen homoffobig yn cael eu herlyn yn unol â'r polisi.

GOLWG GYFFREDINOL AR Y RHANBARTH

Gwybodaeth am y **rhanbarth**

Gweledigaeth y CPS yw bod yn "awdurdod erlyn annibynnol, o safon fyd-eang, wrth galon y gyfundrefn cyfiawnder troseddol, yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr sy'n bodloni anghenion dioddefwyr a chymunedau, gan wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl leol a helpu i adeiladu cymdeithas fwy gweddus a diogel". I'r perwyl hwn, bydd CPS Gwent yn gweithio'n agos â phartneriaid mewn asiantaethau cyfiawnder troseddol (ACT) eraill a grwpiau cymunedol i sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion y gymuned a wasanaethwn.

Ar hyn o bryd mae ein prif swyddfa yng Nghasnewydd, ond mae gennym dîm o gyfreithyddion a gweinyddwyr hefyd yn gweithio yng Ngorsaf Ganolog yr Heddlu yng Nghasnewydd. Bydd cyfreithyddion CPS Gwent yn erlyn achosion yn y Llysoedd Ynadon yng Nghasnewydd, Cwmbrân, Caerffili, Coed-duon, Abertyleri a'r Fenni. Bydd erlynwyr y CPS hefyd yn mynd i orsafoedd yr heddlu yng Nghasnewydd ac Ystrad Mynach i roi arweiniad a chyngor cyn i berson gael ei gyhuddo o gyflawni trosedd. Bydd yr achosion mwyaf difrifol yn cael eu traddodi i Lys y Goron yng Nghasnewydd a Chaerdydd. Mae llawer o'r cyfreithyddion yn CPS Gwent â Hawl Uwch i Ymddangos sy'n golygu eu bod yn cael erlyn y troseddau mwy difrifol hynny yn Llys y Goron.

Mae cyfreithyddion yn CPS Gwent wedi derbyn hyfforddiant arbenigol mewn rhai agweddau o'u gwaith, er enghraifft erlyn achosion o dreisio, cam-drin plant, trais yn y cartref, troseddau casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gallu darparu cyngor ac arbenigedd gwell i'r heddlu a bod achosion yn cael eu herlyn yn effeithiol.

CPS GWENT A CHI

Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Ngwent a

CHI

…gweithio gyda'n cymuned

Abaty Tyndyrn: defnyddir y llun drwy garedigrwydd Cadw: Henebion Cymru. Hawlfraint y Goron.

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton. Ffôn: 01204 550803.

CPS

Beth mae'r CPS yn ei wneud i **chi**

Cafodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei sefydlu yn 1986 i erlyn achosion troseddol y bu'r heddlu yng Nghymru a Lloegr yn ymchwilio iddynt. Wrth ymgymryd â'r rôl hon, bydd y CPS yn:

- rhoi cyngor i'r heddlu ynghylch achosion posib i'w herlyn
- adolygu achosion a gyflwynir gan yr heddlu i'w herlyn
- os penderfynir erlyn, pennu'r cyhuddiad ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf
- paratoi achosion ar gyfer y llys; a
- chyflwyno'r achosion hynny yn y llys

Bob blwyddyn fe fyddwn yn ymdrin â thua 19,000 o achosion yn y llysoedd ynadon a thros 1,300 o achosion yn Llys y Goron. Yn 2005 – 06, roedd ein cyfradd euogfarnu gyfartalog yn 85% yn y llysoedd ynadon a 77% yn Llys y Goron.

Bydd pob erlyniad yn cychwyn yn y Llys Ynadon. Mae'r troseddau hyn yn amrywio o faterion moduro bach i ymosod a dwyn. Mae rhai achosion mor ddifrifol fel na ellir ond eu rhoi ar brawf yn Llys y Goron. Bydd achosion eraill yn mynd i Lys y Goron un ai oherwydd bod y diffynnydd yn dewis cael ei roi ar brawf yno neu oherwydd bod yr Ynadon yn penderfynu bod y cyhuddiadau'n ddigon difrifol i alw am dreial yn Llys y Goron gerbron barnwr a rheithgor.

Cyfiawnder i **chi**

Mae'r *Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron* yn ddogfen gyhoeddus, a gyflwynir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Mae'n disgrifio'r egwyddorion cyffredinol y dylai Erlynwyr y Goron eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch achosion.

A oes digon o dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd?

Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, rhaid i Erlynwyr y Goron ystyried a ellir defnyddio tystiolaeth yn y llys ac a yw'r dystiolaeth honno'n ddibynadwy. Rhaid i Erlynwyr y Goron fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi "gobaith realistig o euogfarn" yn erbyn pob diffynnydd.

A yw hi er budd y cyhoedd i'r CPS ddod ag achos i'r llys?

Fel arfer bydd erlyniad yn digwydd oni bai fod yna ffactorau budd y cyhoedd yn erbyn erlyn sy'n amlwg yn drech na ffactorau o blaid erlyn.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i **chi**

Dim Tyst Dim Cyfiawnder

Rhan sylfaenol o Dim Tyst Dim Cyfiawnder yw'r Unedau Gofal Tystion, sydd bellach yn rhoi gwell gwasanaeth i bob dioddefwr a thyst yng Nghymru a Lloegr mewn achosion ble cafwyd cyhuddiadau. Mae hyn yn cynnwys cwblhau asesiadau anghenion, i nodi materion yn ymwneud â gofal plant neu sicrhau mynediad er enghraifft, a threfnu ymweliadau i ymgyfarwyddo â'r llys.

Côd i Ddioddefwyr

Fe ddaeth y Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau i rym yn llawn ar 3 Ebrill 2006.

Dan y Côd Ymarfer fe fydd gan ddioddefwyr hawl i safonau gwasanaeth sylfaenol gan y gyfundrefn cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i ddioddefwyr agored i niwed a hawdd eu dychryn, o fewn un diwrnod gwaith, os nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo diffynnydd, ac o fewn pum niwrnod gwaith i bob dioddefwr arall, yn ogystal â nodi unrhyw fesurau arbennig a allai fod yn briodol.

Mae'r CPS wedi ymrwymo i'w rwymedigaethau dan y côd, sy'n ffurfioli llawer o'r pethau da y mae eisoes yn eu gwneud.

Eich cefnogi **chi**

Bydd CPS Gwent yn ceisio ymateb i anghenion y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. I'r perwyl hwn rydym wedi cynnal perthnasau cryf gyda Chyngor Cydraddoldeb De-ddwyrain Cymru a Chyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd. Mae'r sefydliadau hyn mewn sefyllfa dda i'n cynorthwyo i gyrraedd at y cymunedau lleiafrifol yng Ngwent a rhoi cymorth gwerthfawr i ni er mwyn sicrhau bod ein polisïau yn deg i bawb.

Yn ystod y flwyddyn buom yn cymryd rhan yn niwrnod agored Heddlu Gwent, yn mynychu ffeiriau gyrfaoedd ac ymweld â llawer o ysgolion yn y rhanbarth. Mae hyn wedi rhoi cipolwg i lawer ar waith y CPS. Hefyd, buom yn cymryd rhan mewn treialon ffug mewn llysoedd lleol yn ystod wythnos Oddi mewn i Gyfiawnder, er mwyn dangos i'r gymuned ehangach sut bydd achosion yn cael eu herlyn yng Ngwent. Cafodd y digwyddiadau llwyddiannus hyn groeso mawr gan bawb a fu'n eu mynychu.

Bu erlynwyr a staff cefnogaeth weinyddol hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiad cymhorthfa gymunedol yr asiantaeth cyfiawnder troseddol yn ystod mis Hanes Pobl Dduon, gan gwrdd ag aelodau Grŵp Cefnogi Ffoaduriaid Casnewydd a'r Cylch a Grŵp Gweithredu Somali Casnewydd. Byddwn yn adeiladu ar yr holl gysylltiadau hyn yn ystod y misoedd nesaf.

Gweithio ar eich rhan **chi**

Mae'r bobl sy'n gweithio yn CPS Gwent wedi ymrwymo i roi gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf i bob cymuned yng Ngwent. Bydd ein staff yn derbyn hyfforddiant i'n galluogi i gyflwyno i safon uchel. Mae gennym weithlu amrywiol sy'n cynrychioli'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu. Mae ein prosesau recriwtio yn deg ac agored, gyda swyddi'n cael eu hysbysebu ar ein gwefan www.cps.gov.uk. Byddwn yn annog myfyrwyr ar bob lefel i fynychu ein swyddfeydd ar gyfer profiad gwaith gan ein bod yn gallu cynnig gyrfa amrywiol i gyfreithyddion a gweinyddwyr.

Rydym o'r farn ei bod hi'n hynod bwysig bod pob aelod o staff yn CPS Gwent wedi'u hyfforddi'n llawn er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd i'n cymuned. Mae gennym gynllun hyfforddiant cynhwysfawr i wella sgiliau a gwybodaeth ein holl staff. Bydd hyn yn digwydd ym maes newidiol y gyfraith ond hefyd mewn gweinyddiaeth, iechyd a diogelwch, ymwybyddiaeth o amrywiaeth a thechnoleg gwybodaeth.

Mae gan y CPS system gyfrifiadurol genedlaethol sy'n golygu bod staff yn gallu rheoli achosion penodol yn fwy effeithiol. Mae'r system wedi'i chysylltu â'r System Rheoli Tystion sy'n golygu bod modd trosglwyddo gwybodaeth, fel bod dioddefwyr a thystion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr achosion. Rydym yn gweithio gyda'n hasiantaethau cyfiawnder troseddol partner yng Ngwent i gysylltu ein systemau technoleg gwybodaeth er mwyn gallu gwella trefniadau gweithio ar draws y gwasanaeth cyfiawnder troseddol. Yn y dyfodol, bydd gwybodaeth am achosion yn cael ei rhannu, gan gyflymu'r modd y cyflwynir cyfiawnder yn lleol.

Gweithio gyda'n gilydd i **chi**

Mae gan CPS Gwent ran bwysig i'w chwarae o ran dylanwadu ar bolisïau cyfiawnder troseddol lleol, trwy weithio mewn partneriaeth ar Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Gwent. Mae pob ACT o'r farn ei bod hi'n bwysig bod y gymuned yn hyderus yn y gwasanaethau a ddarperir. I'r perwyl hwn, mae'r GCJB wedi cynorthwyo prosiectau amlasiantaethol, ac enghraifft benodol o hyn yw Prosiect SAFF. Mae hwn yn cefnogi pobl a ddioddefodd drais yn y cartref drwy gydol y broses erlyn trwy gydweithio rhwng asiantaethau'r Heddlu, y CPS, y Llysoedd, Cymorth i Ddioddefwyr, Fforwm Cymuned a Thrais yn y Cartref, y Gwasanaeth Iechyd, Cymorth i Fenywod, Black and Asian Women's Step Out ac Uned Ddiogelwch Menywod Caerdydd. Cafodd arbenigwyr eu penodi yn y CPS a'r Heddlu, a bydd llysoedd ynadon yn cynnal llysoedd trais yn y cartref arbenigol i gefnogi'r broses. Arweiniodd y prosiect at welliannau sylweddol yn nifer y troseddwyr trais yn y cartref a gafodd eu dwyn gerbron llys a bellach mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei roi ar waith fesul cam ar hyd a lled Gwent.

Bydd CPS Gwent a Heddlu Gwent hefyd yn cydweithio i roi gwell gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion trwy'r Unedau Gofal Tystion (WCU). Bydd staff wedi'u hyfforddi'n arbennig yn rhoi gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr a thystion ynghylch achosion y maent yn ymwneud â nhw neu achosion ble gellir gofyn iddynt roi tystiolaeth. Bydd Swyddogion Gofal Tystion yn sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael gwybod y newyddion diweddaraf am eu hachos a bod unrhyw anghenion arbennig sydd ganddynt yn cael sylw, gyda chymorth a chefnogaeth. Rydym yn hynod falch bod nifer o Swyddogion wedi derbyn llythyrau diolch oddi wrth dystion a gafodd gymorth.